

Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 199

Pris 80c

Mis Chwefror 2018



Patagonia

PWYLLGOR A SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ymgynghorydd: Ann Lewis



*Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru*

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughme@aol.com 02920 885151

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis

Golygydd Lluniau: Mary Jones

Cynorthwy-ydd: Jan Penney **Digwyddiadur:** huwrowlands@mentercaerffili.cymru

Ieuenctid: Morgan Roberts, Swyddog Prosiect Llais, a Bethan Jones Menter Caerffili

Y Pwyllgor: Eirlys Thomas, Gareth W. Williams, Dilys Williams, Dafydd Islwyn

e-bost: Golygydd@papurecwmni.cymru **Gweplyfr/ Facebook:** Papur Bro Cwmni

Gwefan: mentercaerffili.cymru/

Croesawir erthyglau gan unrhyw un ond iddynt gyrraedd desg y Golygydd cyn 20fed diwrnod y mis cyn cyhoeddi.

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.

Argraffir gan Tower Print, Uned 12a, Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Bedwas, Caerffili, CF83 8DW

Oedfaon Mis Chwefror Capeli Caerffili

Bedyddwyr Tonyfelin

4ydd Trwy'r dydd : Parch Glyn
Tudwal Jones

11eg 10.30 i'w drefnu
6.00 Parch Milton Jenkins

18fed Trwy'r dydd : Parch Peter Cutts
25ain Gyda Bethel

Annibynwyr, Bethel

4ydd 10.30 : Parch Milton Jenkins

11eg 10.30 : Parch Robert
Owen Griffiths

18fed Gyda Tonyfelin
25ain 10.30 : Gareth Hughes
6.00 : Gordon Maslen

Capel y Groeswen

18fed 3:00 o'r gloch
Gwasanaeth Cymun
Y Parch. Malcolm Shapland

Hanes Cwm Ni

1/2/18 Gwyn Griffiths
The Old Red Tongue; hanes
llynyddiaeth yng Nghymru

1/3/18 Dave Hale
Hanes y pla ar bobl Cymru +
adloniant Dydd Gŵyl Dewi gan
Clwb Gwerin Dysgwyr Gwent a
Côr Afon Lwyd

3/5/18 Gwen Griffiths
Llestri Nantgarw
Trip i'r crochendy, Nantgarw
Tyla Gwyn, Nantgarw, CF15 7TB

Clwb Rygbi Penallta
Ystrad Mynach CF82 7EP
7:00yh
Am ragor o fanylion:
helen.young@coleggwent.ac.uk

**Eisiau dysgu mwy am
hanes Cymru? Dewch i
wrando. Croeso i bawb.**
Addas ar gyfer siaradwyr
**CANOLRADD / UWCH /
HYFEDREDD**

dyddgymraeg.cymru
seamwelsh.cymru
Gwent

Patagonia

Dyma ail ran hanes taith Owain a Joanna i Batagonia yn llysgenhadon yr Urdd. Cafwyd y rhan gyntaf yn rhifyn mis Rhagfyr.

Dydd Iau, cawsom ein cyflwyno i un o draddodiadau mwyaf sanctaidd y gymdeithas Gymreig sef Seremoni'r Orsedd. Seremoni oedd yn amlwg yn hollbwysig iddynt, gyda bysiau yn cludo pobl o bob cwr o Batagonia er mwyn cymryd rhan. Fel rhan o'r seremoni roedd yr holl Orsedd yn bresennol, rhai ar gefn ceffylau yn ogystal â dawns y blodau a chriw teledu lleol yno i ddarlledu'r cyfan. Yn dilyn y seremoni, roedd te Cymreig traddodiadol yn festri Capel Bethel, ac fel criw'r Urdd ein rôl ni oedd gweini paneidiau o de i bawb oedd yn bresennol. Dyma un o uchafbwyntiau'r daith i mi, wrth i mi sgwrsio trwy gyfrwng y Sbaeneg am bron i ddwy awr gyda chyfoedion o'r ysgol leol. Rhyfedd oedd eu diddordeb yn y diwylliant Cymreig, gyda dim un yn medru siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, er daethom i sylweddoli mae tueddiad cyfarwydd oedd hyn. Er yr holl ddiddordeb mewn canu emynau, dawnsio gwerin a'r diwylliant Cymreig, prin iawn oedd y rheini oedd yn medru siarad Cymraeg yn rhugl, nodwedd oedd yn ysgogi teimladau cymysg. Ar y naill llaw, roedd hi'n anhygoel bod traddodiadau'r Cymry'n dal i ennyn diddordeb a pharch, ond ar y llaw arall, roedden ni'n teimlo braidd yn ddigalon bod y Gymraeg wedi crebachu o dan rym iaith y mwyafrif, sef Sbaeneg.

Nod dydd Gwener oedd rhannu i grwpiau llai er mwyn cynnal gweithgareddau yn yr Ysgolion Cymraeg lleol. Profodd Joanna a finnau ddiwrnod difyr yng nghwmni plant Ysgol yr Hendre, ysgol gwbl ddwyieithog i blant cynradd. Roedd yn bleser cynnal gweithgareddau megis canu, dawnsio, gemau di-ri yn ogystal â dysgu ambell gân Sbaeneg. Ar wahân i'r tywydd braf, roedd fel petai ein bod ni gartref yng nghwmni plant Cymru! Yn ystod ein hawr ginio ymwelon ni â'r capel cyfagos ble roedd beddi nifer o'r arloeswyr oddi ar fwrdd y Mimosa. Er mor galonogol oedd gweld y Gymraeg yn ffynnu yn yr ysgol, gwrthgyferbyniad llwyr oedd y fynwent a'r capel oedd bellach yn ddim mwy

nag amgueddfa wag. Difaterwch a thristwch oedd hanes y fangre hon, roedd nifer o'r beddi wedi'u difrodi ac eraill wedi adfeilio'n gyfan gwbl. Er bod ysbyty i goffau'r nyrs Mary Elizabeth Humphreys, y plentyn cyntaf a anwyd lai na mis ar ôl i'r Mimosa lanio a'r freuddwyd o ddod o hyd i wlad yr addewid ar flaenau eu meddyliau, lle llawn ing ac edifeirwch oedd hwn am y weledigaeth ddelfrydol na wireddwyd.

Gwibiodd ein cyfnod yn Nwyrain Patagonia a dathlon ni ein diwrnod olaf gan ddod yn ail yng nghystadleuaeth y côr yn Eisteddfod y Wladfa. Yn debyg i ni yma yng Nghymru, Yr Eisteddfod yw canolbwynt y calendr Cymreig ac erbyn hyn roedd wynebau cyfarwydd yn llenwi Neuadd Dewi Sant ac yn cystadlu ar y llwyfan. Cyn i ni gystadlu, casglodd aelodau'r gynulleidfa yng Nghapel Tabernacl am de traddodiadol Cymreig.



Yn wahanol i de Cymreig heddiw, doedd dim brechdanau ar gyfyl y lle ond yn hytrach llenwyd y byrddau gan lond blatiau o 'deisen ddu' (cacen ffrwythau Patagonia), pice ar y maen a danteithion yr Ariannin megis *alfajores* a nifer o gacennau eraill oedd yn gorlifo gyda *dulce de leche*. Coronwyd y wledd yma ein hamser yn Nhrelew a'r Gaiman ac er ein tristwch wrth adael cawsom flas (yn llythrennol!) ar fywyd Cymry'r Ariannin.

Mae'n bleser cyhoedd fod Morgan James o Ysgol Gyfun Cwm Rhymni wedi'i ddewis i fynd i'r Wladfa yn yr Hydref.

Dathlu'r 100

Dr Elin Jones

A dyma ni yn 2018. Erbyn hyn mae pawb yn gwybod y byddwn yn cofio eleni am ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf. Ond efallai na fydd pawb yn gwybod bod 2018 yn gyfle i gofio am ganmlwyddiant arwyddocaol arall sy'n haeddu ei ddathlu. Ym 1918 fe gafodd menywod Prydain yr hawl am y tro cyntaf i bleidleisio mewn etholiadau democrataidd.

Roedd cael y bleidlais yn drobwynt hanesyddol. Roedd amodau iddo, serch hynny. O dan Ddeddf Cynrychioli'r Bobl rhoddwyd y bleidlais i bob dyn dros ei 21, ond dim ond i fenywod dros 30. Sarhad oedd hynny ym marn llawer o fenywod. Eto i gyd roedd y byd wedi ei weddnewid. Dyma agor y llifddorau: o hynny ymlaen daeth llif cyson o welliannau - hawliau i bleidlais gyfartal, addysg gyfartal, gyrfaedd cyfartal, cyflog cyfartal – proses sy'n parhau hyd heddiw.

Mae'r flwyddyn 2018 hefyd yn ugain mlwyddiant sefydlu cymdeithas sy'n benderfynol o gydnabod a chofnodi llwyddiannau menywod. Yn draddodiadol, bu menywod yn aelodau anweledig cymdeithas, ac felly yn anweledig mewn hanes hefyd. Bwriad y menywod a sefydlodd Archif Menywod Cymru oedd newid hynny.

Mae sylfeini'r gymdeithas i'w canfod 'nôl yn y 1970au/1980au, pan ddechreuodd nifer o haneswyr ar y gwaith mawr o ddod o hyd i'r rhan a gymerwyd gan fenywod mewn digwyddiadau cymunedol arwyddocaol. Ym 1997 daeth rhai o haneswyr benywaidd Cymru at ei gilydd i ffurfio'r Archif, sydd wedi chwarae rhan allweddol mewn newid wyneb hanes trwy sicrhau bod hanes menywod, a fu'n faes a esgeuluswyd ac a ddirmygwyd yn aml, yn datblygu'n ddisgyblaeth academiaidd barchus.

Bwriad yr Archif yw casglu, cofnodi a diogelu tystiolaeth am fywydau menywod yng Nghymru, eu hanes a'u cyfraniadau i gymdeithas. Mae'r dystiolaeth am ymgyrch Comin Greenham, a ddechreuodd gyda gorymdaith o Gymru, yn ddiogel gyda'r Archif.



Yn ddiweddar cafodd yr Archif nawdd hael gan Gronfa Treftadaeth y Loteri i gasglu a diogelu atgofion menywod fu'n gweithio yn ffatrioedd Cymru rhwng 1945 a 1975 – menywod a gyfranodd yn sylweddol i economi'r wlad yn ystod y blynyddoedd anodd hynny.

Ac yn 2018 fe fydd yr Archif yn ymuno gyda chymdeithasau a sefydliadau eraill i ddathlu canmlwyddiant y tro cyntaf y cafodd menywod ym Mhrydain bleidleisio mewn etholiad ddemocrataidd. Fe fydd criw o fenywod o'n Cwm Ni yn ymuno yn y dathliadau hyn hefyd, oherwydd bwriad cangen Cwm Rhymni o Ferched y Wawr yw ymuno yn rhai o'r dathliadau – a byddwn yn dathlu eu dengmlwyddiant nhw ar yr un pryd!

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â: <https://www.womensarchivewales.org>

Dyfodol Ein Hysgolion Cymraeg



Mae cymdeithas Sir Caerffili Rhieni Dros Addysg Gymraeg yn croesawu'r newyddion mai aelod o RhAG yw'r Aelod Cabinet newydd dros Addysg a Chyflawniad ar Gyngor Sirol Caerffili. Mae plant Philippa Marsden wedi mynychu Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ac mae hi'n dal i fod yn aelod o Fwrdd Llywodraethol Ysgol Cwm Rhymni. Hi, bellach, yw'r cynghorydd Llafur dros Ynysddu.

Cyfarfu rhai o swyddogion RhAG Sir Caerffili â'r Cynghorydd Marsden ac mae'r swyddogion hynny hefyd yn aelodau o banel cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg sir sef, WESP h.y. *Welsh Education Strategic Planning*.

Fodd bynnag, ni fu'r aelodau'n obeithiol iawn ynglŷn â dyfodol addysg Gymraeg yn y sir. Er bod dogfenni WESP yn datgan yn glir y galw sydd am ddarpariaeth ychwanegol, teimlwyd nad oedd cynigion digon pendant yn y dogfenni ar hyn o bryd i ddangos sut yn union y byddid yn mynd ati i ddiwallu'r galw cynyddol am lefydd yn ein Hysgolion Cymraeg. Teimlwyd bod teitl y ddogfen yn llawer mwy crand na'i chynnwys! Cafwyd sicrwydd fod cynigion pendant wedi'u paratoi ac rydym yn edrych ymlaen, yn eiddgar, at yr amser pan fydd yr awdurdod yn rhannu'r cynlluniau hyn â ni. Byddwch yn siwr, felly, o ddarllen "Cwmni" yn y dyfodol pan y gobeithiwn allu datgelu'r cynlluniau hyn.

Chweched Dosbarth yn safle Gwyndy, Ysgol Gyfun Cwm Rhymni

Bu hwn yn bwnc trafod ers yr hydref pan gafodd disgyblion Blwyddyn, 11 sydd yn astudio yn y Gwyndy, wybod y byddai'n rhaid iddynt fynd lan i Gellihaf ar gyfer darpariaeth Chweched Dosbarth mis Medi nesaf.

Agorwyd safle'r Gwyndy ar gyfer addysg 3 i 18 ac felly y disgwyl oedd y byddai yno Chweched Dosbarth. Ond ni sylweddolwyd ar y pryd mai ond 86 o blant fyddai yno i agor yr ysgol yn 2013. Fel arfer, tua hanner y nifer sy'n sefyll arholiadau TGAU sy'n mynd ymlaen i'r Chweched ac felly mae'n debyg mai ond ychydig dros ddeugain fydd yno ym mis Medi 2018 i gynnal Chweched Dosbarth. Gan ei bod yn ofynnol i'r ysgol ddarparu ystod o 30 cwrs gwelir nad oes digon o blant yno, ar hyn o bryd, i'r ysgol allu gwneud hyn.

Cynlluniwyd y safle ar gyfer 140 o blant yn dod i mewn bob blwyddyn. Ac erbyn hyn gwelir fod llawer mwy na hynny wedi cychwyn yn yr ysgolion sy'n bwyda safle'r Gwyndy ers 2013, ac nawr mae'r rhif yn agosach i 160. Mae gobaith, felly, y bydd darpariaeth Chweched Dosbarth ar gael yn y Gwyndy yn y pen draw. Ond i ba raddau?

Gwelwn fod yr ysgolion cyfun lleol erbyn hyn yn cyfuno i ddarparu cyrsiau lle mae'r nifer o ddisgyblion sy'n dewis ambell bwnc yn llai niferus. Felly, pan ddaw'r Chweched Dosbarth i'r Gwyndy mae'n bur debygol y bydd yn rhaid symud o'r naill safle i'r llall ar gyfer rhai pynciau. Y perygl wedyn yw na fydd disgyblion yn dewis eu pynciau cryfaf ond, yn hytrach yn cael eu dylanwadu gan y fan y dysgir pynciau.



Teg edrych tuag!

Adref yw'r gair coll wrth gwrs. Mynd adref i le cysurus? Dyna ein gobaith fel arfer ond anodd iawn fyddai hynny petaech chi ddim yn ennill digon o arian. Yn anffodus dyna'r gwirionedd i filiynau o bobl ond mae Masnach Deg yn gallu newid y sefyllfa honno a gwneud "yr edrych tuag adref" yn wirioneddol deg.



Mae Fair Do's/Siopa Teg yn hyrwyddo gwaith Masnach Deg yng Nghaerdydd ac mae'r siop ei hun yn un o drysorau cudd y ddinas! Wrth gwrs mae'n bosib na wyddoch am fodolaeth y siop sydd wedi ei lleoli yn Nhreganna. Mae hi'n llawn nwyddau o bob math ac mae'r siop a'i gwirfoddolwyr wedi cefnogi a hyrwyddo Masnach Deg ledled De Cymru am ugain mlynedd bellach.


Mae'r siop yn llawn o nwyddau hyfryd a lliwgar - teganau, dillad, gemwaith, crefftiau a bwydydd masnach deg - ond mae mwy na hyn i'r syniad o fasnachu teg. Mae tîm Siopa Teg yn frwd iawn ynghylch gwaith allanol a gweithio gyda'r gymuned leol. I'r diben hwn, maen nhw'n croesawu grwpiau o blant ysgol i ymweld â'r siop a chynnal gweithgareddau addysgol, yn cynnal stondinau mewn gwyliau lleol ac yn cefnogi gwirfoddolwyr i gynnal eu stondinau eu hunain yn eu heglwysi a grwpiau eraill. Ar hyn o bryd mae Siopa Teg yn cyflogi Aled Pickard fel gweithiwr allanol o dan nawdd Hub Cymru Africa ac mae e'n treulio ei amser yn ymweld ag ysgolion, busnesau a grwpiau cymunedol i gyflwyno canlyniadau gwaith ymchwil a gynhaliwyd gan Siopa Teg i effeithiau prynu nwyddau masnach deg yng Nghymru.

Meddai Aled, "Roeddwn yn gwybod bod masnach deg yn helpu i drawsnewid bywydau'r ffermwyr a'r cynhyrchwyr tu ôl i rai o'n hoff gynnyrch, ond ar ôl gwneud y gwaith ymchwil hwn a chwrdd â chynhyrchwyr masnach deg, mae'n galonogol iawn gwybod bod pob pryniant unigol yn helpu pobl mewn rhai o wledydd tlotaf y byd i ddiwallu eu hanghenion. Gall 55 o bobl gynnal ffermwr coffi yn Uganda drwy yfed un cwpanaid o goffi masnach deg bob dydd. A thrwy werthu crefftiau o Kenya, yr ydym yn Siopa Teg wedi galluogi mamau i ennill yr hyn sydd angen arnynt i dalu am addysg eu plant, yn cyfateb i fwy na 13 blynedd o addysg hyd yma."

Un peth mae Siopa Teg yn ei gynnig yw 'Noson o siopa hwylus'. Gall grwpiau drefnu noson yn y siop gyda lluniaeth ysgafn am ddim, a chyfle i chwilio, edrych a phrynu nwyddau Masnach Deg. Gellir hefyd cael sgwrs am waith Masnach Deg. Mae'r nosweithiau hyn yn boblogaidd iawn. Mae'n ffordd berffaith i gymdeithasu gyda ffrindiau tra'n dewis anrhegion i'r teulu heb y boen o siopa mewn tyrfa o bobl! Cyfle gwych i'r rheiny sy'n gweithio i ymlacio tra'n siopa. Cewch eich syfrdanu gan y dewis o nwyddau Masnach Deg sydd ar gael - y dewis mwyaf yng Nghymru! Nid coffi, siocledi a bananas yw'r unig bethau y mae Masnach Deg yn eu cynnig!

Mae nifer o eglwysi ac ysgolion Caerffili a'r cylch eisoes yn dod i ymweld â Siopa Teg yn rheolaidd i gasglu stoc ar gyfer eu stondinau masnach deg ac i gasglu posteri a thaflenni. Mae presenoldeb masnach deg yn dda yng Nghaerffili, diolch i'r cefnogwyr brwd yma.

www.fairdos.com
www.facebook.com/fairdoscardiff
Trydar: @fairdoscardiff
Ebost: info@fairdos.com
Ffôn: 029 2022 2066



Gwales, sef nofel ddiweddaraf Catrin Dafydd, oedd y llyfr a drafodwyd gan y clwb darllen ar Ionawr 8fed. Cafodd y nofel adolygiadau canmoladwy iawn ond cymysg oedd ymateb aelodau'r grwp yn Llyfrgell Caerffili.

Teimlem i gyd nad oedd yn nofel hawdd ei darllen : mae'r arddull yn amrywio o ddyddiadur i flog, i gais am swydd, i fanifesto gwleidyddol, i lythyr personol a nifer o ffurfiau eraill ond prin iawn yw unrhyw naratif sy'n ein hannog i ddarllen ymlaen a dilyn trywydd y nofel.

Gosodwyd y nofel yng Nghymru'r dyfodol, a'r amser yn newid o 50au i 40au y ganrif hon gyda chyfeiriadau at y 20au hefyd. Teimlai rhai o aelodau'r grwp bod y newid amser hefyd yn ei gwneud yn anodd ymgolli yn y llyfr. Hanes gŵr ifanc o'r enw Brynach Yang yw *Gwales*, ei fam o bentref Llanboidy lle cafodd yntau a'i frawd eu magu a'i dad o China. Sonir am ryfel rhwng China a Phrydain yn ystod plentyndod Brynach, carcharwyd ei dad fel estron gelyniaethus a bu farw yn y carchar. Ceir disgrifiadau byw o ymateb atgas y gymdogaeth i Brynach ac yntau'n amlwg yn hanner estron.

Cawn hanes gyrfa academig Brynach a'i gyswllt â phlaid chwyldroadol Poboliaeth sydd tua diwedd y nofel yn cymryd meddiant o dref Caerfyrddin trwy rym, fel protest dros hawliau pobl gyffredin. Mae nifer o gymeriadau eraill digon lliwgar fel y ddysgwraig o Sierra Leone sy'n siarad Cymraeg rhugl ond yn gwrthod treiglo a Shan, y ferch ddi-nod ac anabl sy'n datblygu i fod yn bennaeth busnes gwerthu cyffuriau anghyfreithlon. Brynach fodd bynnag yw'r canolbwynt sy'n tynnu'r cyfan ynghyd.

I rai o'r grwp, roedd hyd y nofel yn un o'i gwendidau a chytunai pawb y byddai golygu manwl a deallus wedi arwain at welliant sylweddol. Ar y llaw arall mae cryfderau canmoladwy gan *Gwales*. Mae'n wir bod yr arddull amrywiol yn gwneud darllen yn anodd ar brydiau ond trwy gynnwys amrywiaeth mawr o fewn i'r defnydd o'r iaith Gymraeg, mae Catrin Dafydd yn gwneud i ni feddwl am y cwestiwn holl-bwysig : Beth yw dyfodol yr iaith? A fyddwn mewn rhyw ddeng mlynedd ar hugain yn derbyn Cymraeg di-dreigliad neu iaith sy'n gymysgedd llwyr o Gymraeg a Saesneg? A fydd cymeriadau fel Dr Huw y nofel yn ymdrechu i gadw eu hiaith yn gywir a llenyddol?

Y mater llosg arall a drafodir yw natur chwyldro ac fe ellid dadlau bod rhyw adlais o *Animal Farm* George Orwell yn y llyfr. Syniadau delfrydol a di-drais sydd gan arweinwyr Poboliaeth ar y cychwyn ond wrth iddynt ennill tir, buan y gwanheir y delfrydau a'r ymlyniad wrth ddulliau di-drais. Erbyn y diwedd rhaid holi faint o fwlch sy rhwng gormeswyr y llywodraeth a'r chwyldroadwyr sy'n honni eu bod am wella ansawdd bywyd. Nid hon yw hoff nofel y clwb darllen mae'n amlwg, ond mae cyfle da i gnoi cil ar nifer o faterion tra phwysig!

Mae nifer yn derbyn y papur bro yn fisol dros y We. Mae yna fanteision.....

- ♦ Byddwch yn derbyn eich papur yn syth.
- ♦ Byddwch yn gweld pob un dudalen mewn lliw.
- ♦ Byddwch yn arbed papur.

Gyrrwch eich cyfeiriad ebost at y Golygydd, does angen gwneud dim byd mwy!

benamary2000@yahoo.co.uk/ Golygydd@papurcwmni.cymru

Cofio'r Parchedig Ddr. Dafydd G. Davies. Caerdydd

Un o blant y mans oedd Dafydd G Davies, academydd cytbwys ac ymroddgar, pregethwr Beiblaidd eneiniedig a gweinidog a edrychai ymlaen at fugeilio'r eglwys dan ei ofal. Roedd ei dad, sef y Parchg Clement Davies, yn un o arweinwyr Undeb y Bedyddwyr ar hyd ail hanner yr ugeinfed ganrif, ac ar wahân i un enghraifft arall, ni ellir meddwl am dad a mab a fu'n llywyddion Undeb Bedyddwyr Cymru. Roedd wrth ei fodd yn cwmnïa gyda phobl ifanc, ac yn ddyn teulu wrth reddf. Merch o Fangor oedd ei briod Kitty a ganwyd iddynt eu mab Gwilym, a fu ei hun yn weinidog mewn sawl gofalaeth yn Nwyrain Morgannwg, a dwy ferch, Megan a Gwen, efeilliaid llawen a pharod eu gwasanaeth yng ngwaith yr eglwys. Roedd Dafydd a'i blant wrth eu bodd yn ymwneud â chyfrifyddiaeth a gallai Dafydd fod wedi datblygu gyrfa yn y maes hwnnw pe dymunai.

Ymdeimlodd â'r alwad i'r weinidogaeth yn ifanc iawn, ac roedd dylanwad ei dad a'i fam Gwen, yn drwm arno. Aeth i Goleg Prifysgol Cymru, Bangor i dderbyn ei addysg a chyflawnodd dair gradd yn ystod ei arhosiad yno, Economeg, Clasuron a Diwinyddiaeth. Chwaraeai bêl-droed i dîm y myfyrwyr, a bu hefyd yn llywydd Myfyrwyr y Brifysgol. Cwta dair blynedd bu'n weinidog yn Seion, Llanfair M. E. a Moreia, Pentraeth, Ynys Môn (1952-55), cyn iddo dderbyn swydd yng Ngholeg yr enwad yng Nghaerdydd a hynny yn 1955. Astudiaethau'r Testament Newydd oedd ei brif faes, a chyfrannodd i sawl cyhoeddiad academaidd yn y cyfnod hwn. Hefyd cyhoeddodd 'Dod a Bod yn Gristion...', esboniad ar Epistol Paul at y Rhufeiniaid (1984). Cyflwynodd ddarlith Pantyfedwen 'Canon y Testament Newydd, ei ffurfiad a'i Genadwri' (1986) ac fe'i cyhoeddwyd. Meddai ar y ddawn i ddarllen yn eang a phwyso a mesur y drafodaeth ddiwinyddol gan gyflwyno'r casgliadau yn glir a chytbwys. Roedd yn berson dadansoddiadol a phroffwydol ac yn gwmniwr difyr a hwyliog.

Er cynnydd baich y blynyddoedd, roedd yn barod iawn i groesawu ymwelwyr a seiadu cyhyd ag oedd ei nerth yn caniatáu.

Trwy ei ymdrechion ef, sefydlodd Coleg y Bedyddwyr berthynas agos â Phrifysgol Campbell yng Ngogledd Carolina. Gwasanaethodd yr enwad mewn sawl maes, ac yn 1986 gwahoddwyd ef i fod yn llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru gan gynnig dadansoddiad blaengar a gwrthrychol am gyflwr yr eglwys ac anghenion yr enwad yn y cyfnod hwnnw. Cynigiodd sawl cynllun blaengar, a gellir dweud ei fod yn ddyn o flaen ei oes wrth gynnig strwythurau a fedrai fod yn fodd diogelu gweinidogaethau mewn sawl ardal, ac yn arbennig yng nghymoedd y De Ddwyrain. Ef a ysgogodd y gyfres o gyfarfodydd hwyliog 'Gŵyl y Gair ar Gân', a gafodd eu cynnal yn Aberystwyth. Yn dilyn ei ymddeoliad, bu'n dilyn sawl camp ac yn arbennig ei hoff bêl-droed. Daeth y golff i ben pan roedd yn wythdeg oed ond parhaodd i fwynhau darllen a gwrando ar y radio.

Pan symudodd y Parchedig Denzil John o Gaerffili i Gaerdydd yn 1991, gwahoddwyd Dr Dafydd Davies i ddod yn gymedrolwr yn Nhonyfelin, a bu'n arwain y drafodaeth i sicrhau gweinidog i'r eglwys. Dros y ddwy flynedd bu'n gweithredu yn y swydd hon, bu'n gefn i'r eglwys a'i thystiolaeth, a phan sefydlwyd y Parchedig Milton Jenkins yn weinidog yno, bu'r cyn-brifathro yn ffyddlon a chefnogol i'r bugail newydd. Roedd yn gyfaill cywir ac yn sgwrsiwr poblogaidd gydag aelodau'r eglwys, a sonnir amdano gydag anwyldeb naturiol. Gwaelodd iechyd ei briod a bu farw hithau yn 2005. Cafodd Dafydd bob gofal gan ei blant a diolchant hwythau, iddynt gael y modd i ofalu am eu tad ar ei aelwyd ei hun hyd y diwedd. Braint i ninnau oedd ei adnabod a'i ystyried yn gyfaill gwerthfawr.

Y Parchedig Denzil John



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Gwent

SIARAD!



Dechrau yng Ngwent yn fuan - cynllun newydd i baru dysgwyr gyda siaradwyr rhugl lleol.

Dych chi'n dysgu Cymraeg? Dych chi'n siarad Cymraeg yn rhugl yn barod? Dyn ni'n

chwilio am y ddau, i fod yn rhan o brosiect newydd, cyffrous fydd yn dechrau yn y flwyddyn newydd.

Bydd Dysgu Cymraeg Gwent yn cynnal y cynllun i annog y rhai sydd eisioes yn dysgu Cymraeg i'w siarad y tu allan i'r dosbarth gyda phobl eraill, sy'n rhugl yn yr iaith. Bydd dau ddeg dysgwr ffodus yn cael y cyfle i gwrdd â siaradwr lleol, ddeg gwaith, am awr bob tro. Gobeithir y bydd y cynllun o fudd mawr i bawb, gan roi ymarfer ychwanegol i'r siaradwyr newydd a rhoi cyfle i'r siaradwyr rhugl esbonio beth sy'n mynd ymlaen yn Gymraeg yn yr ardal, yn ogystal ag ymarfer siarad â dysgwyr hefyd. Yn bennaf, dyn ni'n gobeithio y bydd y partneriaethau newydd yn galluogi pawb i wneud ffrind newydd - ffrind Cymraeg.

Bydd y sesiynau'n anffurfiol ac yn gyfeillgar, gyda'r pwyslais ar ddefnyddio'r Gymraeg sy gyda'r dysgwr yn barod, er mwyn iddyn nhw fagu hyder a rhoi hwb i'r broses o afael yn yr iaith. Cymraeg byw, naturiol dyn ni eisiau i'r siaradwyr rhugl ei defnyddio. Does dim rhaid deall gramadeg Cymraeg na gwybod geirfa anodd, dim ond siarad yr iaith!


"Ceisiwn ein gorau glas i baru pobl mor lleol â sy'n bosib ac edrychwn ni ar ddiddordebau a phatrymau gwaith pobl cyn eu cysylltu," meddai Geraint Wilson -Price, Cyfarwyddwr Dysgu Cymraeg Gwent, sy'n gyffrous i lawnsio'r cynllun newydd cyn bo hir.

I fynegi diddordeb yn y cynllun neu am sgwrs bellach am y prosiect, cysylltwch â: 01495 333702 neu ddilynwch y linc:

helen.young@coleggwent.ac.uk



Rhannu Ambarél gan Marian Fairclough



Dyma nofel arobryn y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2017 a hynny'n gwbl haeddiannol yn fy marn i. Roeddwn yn ceisio dyfalu ar y dechrau beth oedd arwyddocâd y teitl pan welais y clawr a'r llun o ambarél fawr goch a pherson yn gwisgo dillad tywyll yn cysgodi rhag y glaw. Fe daniwyd fy

chwilfrydedd a buan iawn y daeth ystyr a swyddogaeth yr ambarél yn amlwg.

Fel grŵp, credaf ein bod wedi cael blas ar y casgliad hwn o straeon gyda ambell aelod yn hoffi rhai straeon yn fwy na'i gilydd. Y Lôn Wen oedd fy ffefryn i ar y dechrau ond roedd y cyfan wedi fy swyno i erbyn yr ail ddarlleniad.

Teimlaf fod yr awdur yn siarad yn uniongyrchol â'r darlleneydd o'r frawddeg gyntaf hyd yr olaf, a'i bod yn parhau i gadw ein diddordeb gyda'r brawddegau a'r ddeialog yn llifo'n esmwyth a phob sefyllfa'n dod yn fyw. Ceir cymalau a chymariaethau bachog, geiriau grymus, sylwadau treiddgar a digonedd o siarad plaen e.e. 'taid fel hen gloc a neb i'w windio' a dywediadau fel e.e. 'pobl mwyar duon' sydd bellach yn anghyfarwydd i lawer iawn o bobl. Gwelir achosion o gryfder a gwendid ochr yn ochr a'i gilydd, amgylchiadau amrywiol a sut mae pobl yn ymateb iddyn nhw. Rhoddir sylw i'r pethau bychain sy'n hanfodol bwysig mewn bywyd.

Cawn straeon am bethau bob dydd, yn cynnwys troeon trwstan a phynciau sy'n ein hanesmwytho, e.e. y bachgen ifanc a'i daid yn ymwneud â chyffuriau. Fe welir tynerwch a chreulondeb cariad, esgeulustod a'i ganlyniadau, euogrwydd, galar a'r effaith andwyol a geir ar fywydau unigolion.

Mae pob stori wedi'i llunio'n grefftus gyda sefyllfaoedd digon cyffredin a chymeriadau credadwy ac amrywiol. Fe sylwir ar yr amrywiaeth mewn tŷn ac awyrgylch sy'n hollbwysig yn y storïau hyn ac yn ein hannog i ddarllen ymhellach. Pleser yw cymeradwyo 'Rhannu Ambarél'.

Deg Hoff Englyn

Gwahoddiad caredig yw hwn: gwahoddiad i holl garedigion y pethe, ac yn arbennig i'r cannoedd lawer sy'n mawr werthfawrogi traddodiad barddol cyfoethog Cymru.

O blith mesurau cerdd dafod, yr englyn, bid siŵr, yw un o'r rhai mwyaf poblogaidd. A dyna amcan y nodyn hwn: **estyn gwahoddiad diffuant i chwi anfon ataf destun eich hoff ddeg englyn**. Nid cystadleuaeth ydyw, ond cyfle i bawb fod â rhan mewn gweithgarwch fydd yn adlewyrchu'r diddordeb rhyfeddol sydd gan gymaint ohonom yn y chwarel ddi-hysbydd hon o englynion, ar gof a chadw gennym fel cenedl o'r nawfed ganrif hyd heddiw. Bydd croeso arbennig i englynion lleol, llai cyfarwydd o bosibl, ond rhai ag iddynt apêl bersonol i chwi.

Yn ogystal ag ennyn diddordeb pellach yn hoff englynion y Cymry, y gobaith yw codi **swm sylweddol o arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd, Awst 2018** (gweler isod). Cyhoeddir y deg englyn a ddaeth i'r brig, a detholiad o'r gweddill, ynghyd ag enwau pawb a gyfrannodd.

Rhai cyfarwyddiadau pellach:

1. Anfoner testun teipiedig o'r englynion **ar bapur A4**.
2. Os yn bosibl, anfoner copi o'r englynion hefyd ar ffurf **atodiad drwy ebost**.
3. Gyda'r englynion gofynnir yn garedig ichwi anfon **rhodd o £25** (neu fwy, os dymunwch). Y siec yn daladwy i: **Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd**.
4. Dylid nodi enw awdur pob englyn, os yw'n wybyddus. Yn arbennig gydag awduron llai cyfarwydd, gorau oll os gellir hefyd ychwanegu yn gryno unrhyw wybodaeth bellach, megis ardal yr awdur a blwyddyn geni / marw.
5. Gellir cynnwys unrhyw un o ffurfiau'r englyn, nid yr englyn unodl union mwyaf cyfarwydd yn unig.
6. Os yw englyn yn rhan o gyfres, da fyddai nodi hynny.
7. Gorau oll os gellwch restru'r englynion yn nhrefn blaenoriaeth. Ond nid yw hynny'n orfodol. Gellwch hefyd, er enghraifft, eu dosbarthu fel hyn: 1-3: hoff englynion; 4-6: ail ddosbarth o hoff englynion; 7-10: trydydd dosbarth o hoff englynion.
8. Gyda'r casgliad o englynion dylid nodi eich **enw, cyfeiriad (yn cynnwys cyfeirnod post), rhif ffôn, a chyfeiriad e-bost**.
9. Y dyddiad cau yw **1 Ebrill 2018**, ond gorau po gyntaf i anfon ataf: **Cwm Eithin, 37 Heol Sant Mihangel, Llandaf, Caerdydd, CF5 2AL. Tel. 029 2056 6249. rgwyndaf@sky.com**

Byddai'n hyfrydwch arbennig i mi pe bai ugeiniau lawer ohonoch yn mynd ati mor fuan â phosibl i ddewis eich hoff englynion. Yr un modd, i annog eraill drwy ddangos y gwahoddiad hwn i unigolion, cymdeithasau, dosbarthiadau cerdd dafod, ac ati. **Canmil diolch am eich cefnogaeth a phob dymuniad da.**

Robin Gwyndaf



Braf ar ddiwedd blwyddyn fel hyn yw gallu rhoi diweddariad cadarnhaol i chi ar waith BanglaCymru. Yn ystod y misoedd diwethaf mae cryn ymdrech wedi digwydd i sicrhau fod ein canolfan newydd yn Chittagong yn ffynnu. Ar wahân i'r gwaith dyddiol sy'n digwydd yno, a'r hyn a elwir yn 'wersylloedd meddygol', sef mynd â'r tîm meddygol i gymunedau hynod dlawd a chynnal meddygfeydd yno, mae un fenter newydd wedi profi'n llwyddiant mawr. Bob pythefnos mae clinig llygad yn cael ei gynnal, pryd y cyflogir arbenigwr i weld cleifion sy'n cael eu cymell i fynychu'r clinig ar gyngor ein hymwelydd ieched a noddir gan Soroptomists Pontypridd. Un datblygiad arall yw cyflogi meddyges i weithio rhan amser fel ei bod, wrth gydweithio â'n hymwelydd ieched, yn gallu canolbwyntio ar ieched merched a'r hyn sy'n gysylltiedig â hynny.

Buom am ychydig flynyddoedd yn noddi canolfan feddygol mewn pentref bychan tua 30 milltir y tu allan i Chittagong. Erbyn hyn mae'r ganolfan yn hunangynhaliol ac felly, nid yw'r costau misol bellach yn gyfrifoldeb i BanglaCymru. Bydd Dr Jishu, ein cydlynnydd yn cadw llygad ar y ganolfan ac yn cynnig cyngor ar sut i sicrhau llwyddiant y fenter.

Fel y gŵyr pob un ohonoch, arbenigedd a phrif genhadaeth BanglaCymru yw rhoi triniaeth i'r rhai a aned gyda'r cyflwr hollt (cleft) a'r rhai ddioddefodd llosgiadau difrifol. Yn ystod y misoedd diwethaf rydym i gyd wedi gweld y dioddef enbyd sy'n digwydd yn ddyddiol i lwyth y Rohingya sydd wedi ffoi dros y ffin o Myanmar i Bangladesh. Oherwydd cymhlethdodau dealladwy, nid oedd yn bosib i'n tîm meddygol gynnig eu harbenigedd i'r trueiniaid hyn tan yn ddiweddar. Mae hon yn ardal rwy'n ei hadnabod yn dda ac wedi defnyddio'r ysbyty lleol yn y gorffennol, ond mae erbyn hyn yn lle o anhrefn llwyr, llawn budreddi, yn beryglus, yn lle o anobaith ac ansicrwydd ond yn rhyw fath o noddfa dros dro i'r ffoaduriaid anghenus hyn. Felly, ddechrau'r mis hwn aeth ein tîm meddygol i'r ardal a dod o hyd i 30 claf, rhai ohonynt â hagrwech hollt difrifol. Fe'u hebryngwyd gan yr heddlu i'r ysbyty a chael y llawdriniaeth orau posib. Ddechrau'r flwyddyn mae Dr Jishu am ddychwelyd i chwilio am gleifion eraill. Allan o'u hadfyd cafodd y rhain gynnig newydd ar fywyd diolch i garedigrwydd pobl fel chi yma yng Nghymru.



Merched y Wawr
Bardd y Goron
Y Prifardd Cyril Jones

Bethel, Caerffili
Chwefror 28ain

7:30

Croeso Cynnes I Bawb

CYSWLLT:

Jenni Jones-Annetts 02920 868236
Elin Jones 01443 816366.

Croeso Cynnes i Bawb

Eisteddfod y Cymoedd



CYFARFOD BLYNYDDOL

Ysgol Gyfun Cwm Rhymni
Nos Fercher

28^{ain} o Chwefror
07:00 o'r gloch

Croeso Cynnes i Bawb

Colofn Dafydd Islwyn

Ers 24ain o Fedi 1953 mae gen i feddwl mawr o W. J. Gruffydd (1881-1954). Y diwrnod hwnnw, dydd Mawrth, cyflwynodd Miss Davies, Welsh, ei gerdd adnabyddus “Yr Hen Chwaraewr” i Fform 2B, Ysgol Gyfun David Hughes, Beaumaris, Ynys Môn, ac ychydig o'i hanes. “Fel bardd a llenor yr ydym yn gwybod amdano,” dywedodd wrthym.

Flynyddoedd yn ddiweddarach y dysgais iddo fod yn athro yn Ysgol Ramadeg Beaumaris, fy hen ysgol, cyn i addysg uwchradd ym Môn gael ei newid ym mis Medi 1952. Bu'n athro ynddi o 1904 hyd Haf 1906 pan benodwyd ef yn ddarlithydd yn Adran y Gymraeg, Coleg y Brifysgol Caerdydd. Dysgais hefyd fod ganddo gysylltiad â bro CwmNi. Ar yr 16eg o Awst 1909 priododd ef â Gwenda Evans yn Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Abercarn. Bu iddynt ymgartrefu yn Rhiwbeina.

“Erbyn 1930 roedd eu priodas wedi chwalu, canys er 1926 roedd W. J. Gruffydd wedi bod yn canlyn Miss Mary Davies, Arolygydd Ysgolion,” cofnododd Geraint Bowen yn y gyfrol a olygodd yn y gyfres, “Bro a Bywyd. Cyfrol 15. W.J.Gruffydd”. Pan orffennodd hi ei hamser ym Mhrifysgol Bangor fe'i penodwyd hi i Ysgol y Merched, Gilfach Fargoed, Gelligaer. Yna, dychwelodd at ei hen ysgol yn Y Bermo.

Yn ei gyfnod roedd W. J. Gruffydd yn bwyllgorddyn cydwybodol. Eisteddodd ar amryw bwyllgorau a safai'n gadarn dros bob agwedd ar safle'r iaith. Bu'n amlwg yn y gwaith o lunio cyfansoddiad newydd i'r Eisteddfod Genedlaethol. Ef oedd llywydd ei llys pan gynhaliwyd y Genedlaethol yng Nghaerffili yn 1950. Ac mae'n siŵr ei fod uwchben ei ddigon ynddi pan weithredwyd y Rheol Gymraeg am y tro cyntaf.

Ganol dau ddegau'r hen ganrif bu'r Athro W. J. Gruffydd yn aelod o bwyllgor arbennig Y Bwrdd Addysg ac yn 1927 cyflwynwyd ei adroddiad mewn cyfrol fach eang ei maes, “Y Gymraeg mewn addysg ac mewn bywyd”. Beirniadwyd yn hallt agwedd y BBC at y Gymraeg, “gan honni bod y radio'n cwblhau'r gwaith o Seisnigeiddio bywyd deallusol y genedl.”

Penderfynodd y pwyllgor alw am wasanaeth radio llawn yn y Gymraeg. Penderfyniad arall oedd galw am roi tecach le i'r iaith ym myd addysg o'r ysgolion elfennol i'r Brifysgol. Mater pwysig arall a drafodwyd oedd bod angen newid agwedd pobl Cymru a'u denu oddi wrth yr ymdeimlad fod popeth Saesneg yn uwch ac yn well na phethau Cymraeg!

30ain o Ionawr 1943, etholwyd W. J. Gruffydd yn Aelod Seneddol dros Brifysgol Cymru. Daliodd ef ei afael ar y sedd yn etholiad cyffredinol Gorffennaf 1945. Ym 1950 diddymwyd seddi seneddol y prifysgolion. Fe'i hetholwyd i'r Tŷ yn ddigon cynnar i chwarae rhan yn y dadleuon a ragflaenodd Deddf Addysg Butler, 1944. Deddf oleuedig a bwysleisiodd bwysigrwydd addysg gynradd a'r cam naturiol ohono fyddai addysg uwchradd ac yna addysg uwch. “Y gwir ydi y byddai buddugoliaeth W. J. Gruffydd o fewn dim o dro yn rhoi hwb enfawr i'r Gymraeg, a hynny mewn cyfnod o argyfwng gwirioneddol,” meddai Vaughan Hughes yn ei gyfrol “Cymru Fawr, pan oedd gwlad fach yn arwain y byd”, a gyhoeddwyd yn 2014. Sierhaodd le i'r Gymraeg yn y maes llafur addysgol; cyfraniad pwysig yn chwyldroi statws y Gymraeg yn ein hysgolion. Meddai Bob Morris, yr hanesydd: “Dyma roddodd gychwyn ar y gadwyn o Ysgolion Cymraeg penodedig y mae'r galw amdanynt yn dal i gynyddu heddi.” Canmolwn W. J. Gruffydd am ei gyfraniad dros y Gymraeg.

Canmolwn ef fel bardd. Cyhoeddwyd pump o'i gerddi ym mlodeugerdd Rhydychen (Golygydd, Thomas Parry, 1962). Mae hynny i mi yn dangos ei bwysigrwydd fel bardd. Canmolwn ef fel llenor ac mae ei gyfrol “Hen Atgofion” a gyhoeddwyd yn 1936 yn cadarnhau hynny. Mewn teyrnged iddo yn Y Cymro ar yr 8fed o Hydref 1954, dywedwyd amdano “..... gellir dweud yn hyderus amdano na fyddai Cymru heddiw o gwbl yr hyn ydyw petai'r gŵr hwn heb fyw yn ein plith.”

MYNWENT Y GLOWYR, RHISGA


Gareth James

Tybed ydych chi erioed wedi ymweld â Thiepval yng ngogledd Ffrainc a rhyfeddu at gofadail ysbrydoledig y pensaer Edwin Lutyens sydd yn dominyddu'r tirlun ac sydd yn gartref i fynwent enfawr y Rhyfel Byd Cyntaf ac yn ymestyn allan gyda rhesi di-rif o groesau gwynion trefnus, dros yr erwau gwyrddion?

Y mae'r awyrgylch yn drawiadol o dangnefeddus ac yn urddasol fel y byddai'n amhosib na chât ymwelwr argraff fythgofiadwy o'r olygfa aethus hon.

Y mae mynwentydd rhyfeloedd yn arbennig gan fod y rhai sydd yn gorwedd ynddynt wedi trengi dros yr un achos. Byddent wedi marw naill ai yn dreisiol neu drwy afiechyd ac, heb os, roedd y rhan fwya ohonynt yn eithriadol o ifanc.

Serch hynny, nid yw'r nodweddion hyn yn unigryw. Cymharwch fawredd Thiepval â mynwent aneglur, sydd yn llai o lawer ond sydd yr un mor aethus. Yng Nghymru y mae hi – yn Rhisga, Sir Caerffili, i fod yn hollol gywir.



Dyma Fynwent Maes Glas, yn gofeb i 146 o ddynion a bechgyn a gollodd eu bywydau yn sgîl ffrwydrad ym Mhwll Glo Gwythien Ddu, ym 1860.

Y drychineb waethaf o'r fath oedd hynny, sef ffrwydrad a achoswyd gan ryngweithiad marwol fflamau noeth a 'thanchwa' (methan). Pe bai dyn wedi dianc rhag y ffrwydrad, roedd yn debygol o farw yn sgîl anadlu'r tagnwy (neu'afterdamp').

Ar bob cyfrif, nid honno oedd y drychineb gyntaf o'r fath yn y pwll glo hwnnw, a elwid 'Pwll Angau'. Y gwarth hwn oedd y cymhelliant a oedd yn gorfodi'r perchennog, John Russell a'i gwmni, 'Haearn a Glo Rhisga' i gyflogi gweithwyr o Wlad yr Haf a swyddi eraill y tu hwnt i Glawdd Offa.

Ond, ble mae cofeb y dynion dieuog hyn? Mae'u beddau'n meddiannu oriel wyrdd lachar sydd yn oeraidd ac yn ddistaw, ac sydd yn gorwedd fel gwylidyddion dros y twneli o dân berwedig a'r neuaddau llychlyd tanddaearol, mor bell islaw.

Nid oes rhesi trefnus, neu groesau gwynion bychain fan hyn – dim ond mymrynnau, tameidiau, cipolygon. Erbyn hyn, yn eu plith, y mae coed aeddfed yn sefyll fel colofnau eglwys, yn codi'r gramen wyrdd ddeiliog tuag at y nefoedd – eglwys gadeiriol belydrol.

Gydag amser, cymhathir popeth gan yr allt garedig hon, a fydd dim byd ar ôl i'w weld. Nid esgeulustod yw hwn, wedi'r cyfan, mewn marwolaeth y mae gan y glowyr y pethau nad oedd ganddynt mewn bywyd: natur, eu Lutyens nhw, allt sanctaidd yng Nghymru, eu Thiepval.

Gol: Diolch i Goleg Gwent am yrru gwaith eu dysgwyr gorau atom

Annwyl Olygydd,

Ysgrifennaf ar ran tîm cynhyrchu y gyfres 'Garddio a mwy' ar S4C, fydd yn dychwelyd i'r sgrîn yn y gwanwyn am gyfres arall.

Unwaith eto, bydd ein cyflwynwyr - y garddwyr brwd Iwan a Sioned Edwards a Meinir Gwilym - yn ymadael â'u gerddi eu hunain yn achlysurol i gynnig help llaw i arddwyr eraill ar hyd a lled Cymru. Nid trawsnewid gerddi yw'r bwriad, ond yn hytrach ddod a bywyd newydd iddi trwy ganolbwyntio ar ran ohoni a welai fudd diwrnod caled o dorchi llewys.

Felly, pa bynnag agwedd o'r ardd sydd angen sylw, anogwn eich darllenwyr i ddod i gysylltiad â ni. Yn ddelfrydol, dylid anfon cyfres o luniau a disgrifiad byr o'r joban dan sylw, neu o ddyheadau'r perchennog (fydd wrth gwrs yn cymeryd rhan yn yr eitem!).

Yn ogystal a gerddi preifat, rydym hefyd yn agored iawn i glywed am brosiectau garddio cymunedol neu grŵpiau lleol, eto a hoffai fewnbwn gan y tîm.

Am ragor o wybodaeth, neu i gynnig syniad am eitem, dylid ebostio garddioamwy@cwmnida.tv, ffonio 01286 685 300 (a gofyn am Euros neu Meinir) neu adael neges ar ein tudalen facebook (facebook.com/garddioamwy).

Cofion cynnes,

Gweithwyr OM yn Siloh

Dr Elin Jones

*"Na foed cyd-weithwyr Duw
Byth yn eu gwaith yn drist
Wrth ddwyn y meini byw
I'w doddi nhemel Crist"*

medd yr emyn, a dyma rai o'r cyd-weithwyr hynny yn cael hoe a hwyl yng nghanol eu gwaith yn Siloh, Ystrad Mynach.

Mae llawer o waith wedi ei wneud i wella gerddi Siloh dros y ddwy flynedd diwethaf, gyda chymorth Groundworks, ond mae angen gwaith cyson i gadw gardd mewn trefn, ac yn ystod y mis diwethaf roedd y tri garddwr ifanc hyn wrthi'n palu gwely blodau gwyllt a oresgynwyd gan chwyn (marchwellt??), diwreiddio'r chwyn, a ymgartrefodd rhwng cerrig y palmant, a thacluso'r llwyni.



Colofn y Dysgwyr

gan Ann Lewis

Wel mae hi'n fis Chwefror ond doedd dim papur bro Cwmni ym mis Ionawr felly hoffwn i ddweud BLWYDDYN NEWYDD DDA wrth bawb! Mae ein cerdd y tro yma yn sôn am y Flwyddyn Newydd ac yn arbennig am y **Calennig**, *anrheg* roedd plant yn ei gael ar *Ddydd Calan* yn yr hen ddyddiau. *Amser maith yn ôl*, roedd plant yn mynd o gwmpas o *dŷ i dŷ* ar fore Dydd Calan ac yn canu *y tu allan i dai pobl*. Byddai pobl yn agor y drws ac yn rhoi arian neu Calennig i'r plant. Weithiau roedd pobl yn mynd i'r banc ac yn cael *ceiniogau newydd disglair* gyda dyddiad y flwyddyn honno i'w rhoi fel Calennig. Dyma un o'r *caneuon traddodiadol* roedd y plant yn eu canu.

**Calennig i mi, Calennig i'r ffon,
Calennig i'w fwyta'r noson hon;
Calennig i nhad am *glytio* fy sgidiau,
Calennig i mam am *drwsio* fy sanau.**

**Wel dyma ddydd Calan , o cofiwch y dydd,
A rhoddwch galennig o'ch calon yn rhydd;
Dydd cyntaf y flwyddyn, os rhoddwch yn *hael*
Bydd *bendith ar bob-dydd* i chwithau'n *ddi-ffael*.**

**Calennig i'r meistr, Calennig i'r *gwas*,
Calennig i'r *forwyn* sy'n byw yn y plas;
Calennig i'r gŵr, calennig i'r wraig;
Calennig o arian i bob *ysgolhaig*.**

anrheg : gift Dydd Calan : New Year's day amser maith yn ôl : a long time ago
o dŷ i dŷ : from house to house y tu allan i dai pobl : outside people's houses
ceiniogau newydd disglair : bright new pennies caneuon traddodiadol : traditional songs
clytio : patch trwsio : mend yn hael : generously ysgolhaig : scholar
bendith ar bob-dydd : a blessing everyday yn ddi-ffael : without fail
gwas: manservant morwyn : maid

Gweithwyr OM yn Siloh (*parhad*)

Dros y blynyddoedd mae rhai o aelodau pwyllgor hybu Siloh wedi ceisio cadw trefn ar y gerddi, ac mae'r gwelyau blodau ger y fynedfa yn brawf o'u gwaith. Ond nid oes ganddynt y nerth a fu, ac mae cadw trefn ar y gerddi cyfan yn drech na hwy. Maent nawr wedi elwa ar waith y triawd ifanc i blannu bylbiau at y gwanwyn yn y tir a glirwyd, a gobeithio y caiff defnyddwyr Siloh fwynhau blodau newydd yn y flwyddyn newydd.

Aeth y tri garddwr at eu gwaith gydag egni a brwdfrydedd, a hwyl hefyd, fel y dengys y llun. Perthyn Tom, Sami a Dyfan i fudiad *Operation Mobilisation* – mudiad sy'n rhoi cyfle i bobl ifanc wneud gwaith ymarferol tra'n tystio i'w ffydd. Daw aelodau OM o ystod o wledydd gwahanol. Tra bod Dylan yn Gymro glan gloyw, mae Tom yn dod o Loegr yn wreiddiol, a Sami o Romania.

Byddant yn mynd ymlaen o Ystrad Mynach i weithio mewn gwledydd eraill. Ond bydd ôl eu gwaith yn parhau yng ngerddi Siloh!

Cyhoeddi cyflwynwyr newydd Dechrau Canu Dechrau Canmol



Bydd wynebau newydd a chyfarwydd yn dod ynghyd i gyflwyno un o gyfresi hynaf S4C ar ei newydd wedd nos Sul, 4 Chwefror ar S4C.

Mae'r gyfres grefyddol **Dechrau Canu Dechrau Canu** wedi bod yn rhan annatod o amserlen S4C ers 1989, ond o hyn ymlaen bydd pump cyflwynydd newydd yn ymuno â'r rhaglen.

Yn eu plith mae cyflwynydd BBC News at Ten, Huw Edwards, a'r dyfarnwr rygbi Nigel Owens sydd wedi dweud yn y gorffennol mai'r emyn 'Mor Fawr Wyt Ti' yw'r gân olaf mae'n gwrando arni cyn camu ar y cae.

Y cyflwynydd Lisa Gwilym, yr actor a cherddor Ryland Teifi a'r cyflwynydd Nia Roberts, sydd wedi cyflwyno'r gyfres yn y gorffennol, sy'n cwblhau'r rhestr.

Mae'r gyfres yn cynnwys canu mawl mewn amryw o leoliadau ar draws Cymru a chyfweiliadau gyda phobl am eu ffydd a chredoau. Bydd rhaglenni arbennig yn ystod y flwyddyn yn nodi'r dyddiadau pwysig yn y calendr crefyddol ac achlysuron cenedlaethol.

Mi fydd rhaglen gynta'r gyfres yn dilyn y thema rygbi i gyd-fynd a Phencampwriaeth y Chwe Gwlad 2018. Owain Arwel Hughes fydd yn arwain y canu cynulleidfaol sy'n dod o Eglwys Dewi Sant, Castell Nedd.

Bydd sgysiaid gyda'r sylwebydd rygbi Alun Wyn Bevan ac arweinydd Côr y Gleision, Richard Vaughan yn ogystal â chyfweiliad gyda Manon a Gwenan Gravell, merched y diweddar Ray Gravell.

Meddai Amanda Rees, Cyfarwydd Creadigol Cynnwys S4C, "Mae Dechrau Canu Dechrau Canmol yn un o gonglfeini gwasanaeth S4C ar nos Sul. Mae'n gyfle i ddathlu'r traddodiad mawl a chanu arbennig sy'n ein nodweddu ni fel gwlad, yn ogystal â chyfle i gael sgysiaid difyr gydag amrywiaeth o bobl am eu profiadau ysbrydol a'r gwerthoedd moesol sy'n bwysig iddyn nhw. Mi fydd hi'n braf iawn cael gweld y cyflwynwyr newydd ar y sgrin ym mis Chwefror, gyda phob un ohonyn nhw'n cynnig rhywbeth gwahanol a chyffrous i'r gyfres."

Clwb Darllen Cwm Ni

Llawr Cyntaf
Llyfrgell Newydd Caerffili
2:00 o'r gloch

Chwefror 5ed **Abermandraw**
Mawrth 5ed **Dan Ei Adain**
Ebrill 9fed **Y Pla**
Mai 14eg **Dewi Llwyd**
Mehefin 4ydd **Syllu ar Waliau**

Cyswllt

Penneyje961@gmail.com

Croeso Cynnes i Bawb

Taith Porthmadog

Corffennaf 3-5 July 2017

£200 ystafell sengl

Pris yn cynnwys trafnidiaeth (bws mini),

£150 rhannu dwbl

dwyr noson llety gwely a brecwast 3*

(Royal Sportsman Hotel, Porthmadog)

a'r holl gweithgareddau uchod.

Deposit 1 £50 - Mawrth 9 March

Price includes transport (mini bus), two nights

Deposit 2 £50 - Mai 11 May

3* bed and breakfast (Royal Sportsman Hotel,

Gweddill - Mehefin 22 June

Porthmadog) and all the activities above.

mentercaerffili.cymru



debbiethomas@mentercaerffili.cymru

01443820913

Llyfrau'r Enfys

Facebook/llyfraurenfys

Twitter @llyfraurenfys

Vikki Alexander-07970172754



Fab Fabrics

@FabFabrics

Fab Fabrics, Ystrad Mynach

Tel. 07964 822865

fabfabrics99@gmail.com

Eisiau ymarfer eich Cymraeg?

2ail ddydd Mawrth y mis

Llyfrgell Caerffili ar yr 2ail lawr

9fed o Chwefror am 2 o'r gloch

"Pobl i'w Hosgoi" gan Ruth Richards

Bore coffi ym Medwas, Caffi'r Graig

bob dydd Llun o 10.30 Bore

Coffi yn y Malcolm Uphill

(Wetherspoons), Caerffili

bob dydd Mawrth o 10 o'r gloch

penneyje961@gmail.com

Croeso i Bawb

TACSI GORSAF CAERFFILI

Cysylltwch â KEITH ar

022 362364 neu 07914 355195

[facebook.com/tacsigorsafcaerffili](https://www.facebook.com/tacsigorsafcaerffili)



Defnyddiwch Gardiau Debyd/Credyd

Pob Nos Fawrth

7:00yh

Côr Cwm Ni

Capel Bryn Seion,
Ystrad Mynach

Croeso i Aelodau Newydd

Gala Cinio Gwyl Dewi

Archebwch tocyn nawr
Pryd tri chwrs ac adloniad o frí!

CASTELL CAERFFILI

Nos Wener

02/03/2018

Dechrau am 7yh

Pris tocyn £25

mentercaerffili.cymru

Am fwy o wybodaeth neu bwlo tocynnau cysylltwch gyda:
huwrowlands@mentercaerffili.cymru - 01443 820 913



www.iwcs.cymru

Sesiynau pob
Nos Fawrth,

Clwb Rygbi Penallta

6.00 – 8.00

£5 y sesiwn

07745927308

Iwcsycwm2015@gmail.com

Canolfan y Glowyr (Yr Hen Ysbyty), Caerffili

200

DATHLU DAU GANFED

RHIFYN EIN PAPUR BRO

Sioned Williams a'r Parchedig Denzil John
Arloeswyr papurau bro'r Sir

Nos Wener, 9^{fed} o Fawrth am 7:00 yr hwyr

Adloniant: Rhiannon Dutt (Telyn) ac Iwcs

Bwffe a Mynediad yn Rhad ac am Ddim

CROESO CYNNES I BAWB

Cysylltwch â Marian Fairclough ar faricloughme@aol.com cyn Mawrth 2ail